# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD MAWRTH, 3YDD GORFFENNAF 2018 AM 5.30PM.

---

YN BRESENNOL:

Cynghorydd D.Havard - Cadeirydd
Cynghorydd C. Andrews - Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

A. Collis, S. Cook, A. Farina-Childs, B. Miles, T. Parry, J.E. Roberts, R. Saralis, J. Simmonds a R. Whiting

Ar y cyd gyda:

R. Edmunds (Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), S. Richards (Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth), S. Mutch (Rheolwr Blynyddoedd Cynnar), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a K. Houghton (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn Bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: M. Barry (Rhiant Lywodraethwyr), R. Morgan (Rhiant Lywodraethwyr) J.Havard a M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol ROC Caerdydd dros Addysg).

E. Pryce (GCA), J. Wood (GCA), M. Jones (Rhwydwaith Rhieni), Tracey Wallbank (PETRA) a Ffion Wallbank (PETRA)

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. Marsden (Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad), P.J. Bevan, W. David, D.T. Hardacre, M.P. James a G.D. Oliver. Hefyd, P.J. Ireland (NUT) a D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili).

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. COFNODION - PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES

Gofynodd y Cynghorydd T. Parry am gywiriad i'r cofnodion. Mae hi wedi'i nodi fel wedi rhoi ymddiheuriadau yn y cofnodion, serch hynny roedd hi'n bresennol yn y cyfarfod.

Yn dibynnu ar y cywiriad uchod, cafodd ei gynnig a'i eilio y dylid cymeradwyo cofnodion yr 22ain o Fai 2018 fel cofnod cywir a thrwy ddangos dwylo cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

> PENDERFYNWYD yn dibynnu ar y cywiriad uchod, y cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 22ain Mai 2018 (rhifau cofnodion 1-13) fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**4. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN**

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â’r weithdrefn galw i mewn.

**5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET**

Nodwyd bod ymddiheuriad am absenoldeb wedi'i dderbyn gan y Cynghorydd P. Marsden, Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad; oherwydd hyn, nodwyd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn flaenorol heb sylw. Gofynnwyd i’r Aelodau roi unrhyw adborth yn uniongyrchol i’r Cynghorydd Marsden drwy e-bost.

**6. RHAGLEN WAITH Y DYFODOL Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AM OES**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor yr adroddiad a oedd yn amlinellu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes drafft o fis Gorffennaf 2018 hyd at fis Ebrill 2019.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y rhaglen waith a gwneud unrhyw newidiadau neu gynnig unrhyw eitemau ychwanegol i'w cynnwys ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Yn dilyn ystyriaeth, fe'i gynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen waith a atodir i'r adroddiad.

**ADRODDIADAU'R SWYDDOGION**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

**7. CRYNODEB O AROLYGIAD ESTYN O DAN Y FFRAMWAITH AROLYGU CYFFREDIN NEWYDD - MEDI 2017 TAN FAI 2018**

Cyflwynodd K. Cole, E. Pryce a J. Wood yr adroddiad a gyflwynodd y dyfarniadau a wnaed gan dimau arolygu Estyn o ysgolion Caerffili ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017-2018 (lle y'u cyhoeddwyd) o dan y fframwaith arolygu cyffredin newydd a gyflwynwyd ym mis Medi 2017.

Cynghorwyd yr Aelodau, mai, hyd yma, dim ond 8 ysgol sydd wedi cyhoeddi adroddiadau arolygu a gyhoeddwyd gyda 4 arall yn ddisgwyliedig maes o law. O ganlyniad, mae'r maint sampl ar gyfer y data a ddangosir yn yr adroddiad wedi'i seilio ar yr 8 ysgol gychwynnol hynny yn unig.

Tynnodd Mr Pryce sylw arbennig i 4.12 o'r adroddiad a oedd yn dangos canlyniadau ysgolion Bwrdeistref Caerffili a arolygwyd o dan y fframwaith newydd o'i gymharu â chategoreiddio cenedlaethol yr ysgol adeg yr arolygiad. Amlygwyd Ysgol Fabanod Llanfabon fel yr unig wahaniaeth sylweddol rhwng y Categoreiddio Cenedlaethol a dyfarniad Estyn.

Cydnabu K. Cole y gwaith caled a wnaed gan yr ysgolion hynny a oedd wedi symud allan o'r categori 'Gwelliant Sylweddol'. Teimlwyd bod canlyniadau arolygu diweddar Estyn yn adlewyrchu darlun addawol ar gyfer ysgolion cynradd ym Mwrdeistref Caerffili. Roedd y darlun ar gyfer ysgolion uwchradd yn llai cadarnhaol a byddai angen cefnogaeth bellach yn y maes hwn. Cyfeiriwyd at Ysgol Lewis Pengam a dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr Awdurdod yn gweithio'n agos gyda'r ysgol drwy'r Bwrdd Gwella a'i Gynllun Gwella Estyn.

Diolchodd y Cadeirydd i K. Cole, E. Pryce a J. Wood am eu cyflwyniad a chroesawyd cwestiynau gan yr Aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau am raddfeydd amser a'r broses ar gyfer hysbysu'r Pwyllgor o ddyfarniadau anffafriol Estyn. Caiff ddyfarniadau Estyn eu cyhoeddi hyd at 44 diwrnod ar ôl yr arolygiad ac maent yn hynod o gyfrinachol nes eu bod yn cael eu cyhoeddi. Mae hyn yn ei wneud yn broses gymhleth o ran hysbysu partïon sydd â diddordeb pan ddisgwylir adroddiad arolygu anffafriol cyn ei gyhoeddi. Os caiff gwybodaeth ei rhannu cyn ei gyhoeddi, yna bydd yr arolygiad yn annilys a bydd angen ei wneud eto. Y weithdrefn gyfredol yw cwrdd ag Uwch Dîm Rheoli'r ysgol, Aelodau'r Ward a'r Aelod Cabinet y diwrnod cyn ei gyhoeddi i baratoi datganiad cyhoeddus a llunio cynllun i reoli ymateb cyhoeddus. Dim ond os yw dyfarniad Estyn wedi gosod ysgol naill ai yn y categorïau 'Gwelliant Sylweddol' neu 'Mesurau Arbennig' y cynhelir y weithdrefn hon.

Gofynnodd yr Aelodau am y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a wnaed gan Ysgol Uwchradd Bedwas a pha faterion sy'n dal i fodoli. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Addysg fod yr Awdurdod Lleol wedi gweithio'n agos gyda'r Pennaeth yn y lle cyntaf i anfon llythyr o sicrwydd at yr holl rieni ar y diwrnod y cafodd yr adroddiad arolygu ei ryddhau. Mae'r ysgol yn parhau i gael cefnogaeth ac yn derbyn ymweliad monitro gan Estyn unwaith y tymor, a dilynir hyn gan lythyr yn nodi'r cynnydd a wnaed. Mae'r canlyniadau hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol gyda rhai meysydd dal angen eu gwella. Penodwyd Pennaeth newydd a bydd yn ei swydd ar gyfer dechrau tymor yr Hydref 2018.

Codwyd pryderon ynghylch ansawdd ac effeithiau defnyddio staff cyflenwi mewn ysgolion. Hysbyswyd yr Aelodau bod Pennaeth ysgol yn gyfrifol am reoli darpariaeth staff cyflenwi. Os rheolir yr ysgol yn dda, wedyn bydd llai o effaith ar y myfyrwyr. Mae ysgolion yn dueddol o gael cronfa o athrawon cyflenwi dibynadwy y maent yn dewis ohono pan fo angen. Nodwyd nad yw arolygiadau Estyn yn gwneud eithriadau i athrawon cyflenwi a byddent yn cael eu barnu ar yr un safonau a phe fyddent yn aelod parhaol o staff, gan gyfrannu at berfformiad cyfan yr ysgol pe bai arolygiad. Cadarnhaodd Mrs Cole fod ysgolion yn aml yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi prinder staff trwy secondiadau staff ac ysgolion sy'n defnyddio cyllid grant i gyflogi athro 'hyblyg' sydd â gwybodaeth o'r ysgol a'r disgyblion ac sy'n gallu camu i mewn i ddosbarthiadau pan fo angen newid. Anogir ysgolion hefyd i gynnwys staff cyflenwi mewn cyfleoedd hyfforddi a datblygu o fewn yr ysgol.

Gofynnwyd am eglurhad pam y gallai fod cymaint o wahaniaethau rhwng canlyniadau disgwyliedig GCA a chanlyniadau Arolygu Estyn fel y profwyd yn ddiweddar yn Ysgol Fabanod Llanfabon. Esboniwyd y gwahaniaeth rhwng methodoleg gosod targedau ysgolion a fframwaith Arolygu Estyn a chydnabuwyd y byddai'r rhain fel arfer yn rhedeg ar y cyd. Yn yr achos hwn, ni ragwelwyd y canlyniad a byddai angen mynd i'r afael â hyn o safbwynt gwersi a ddysgwyd. Sicrhawyd yr Aelodau fod yr GCA yn gweithio'n agos gyda'r ysgol yng ngoleuni'r canlyniadau arolygu a byddai hyn yn cynnwys gosod targedau mwy cadarn er mwyn symud ymlaen mewn modd cadarnhaol, gan roi mwy o bwyslais ar farn athrawon, rhieni a disgyblion.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

## 8. AMCAN LLESIANT 2017-18

Adroddodd S. Mutch ar weithrediad blwyddyn lawn Amcan Lles 2017-18 a oedd yn gofyn am gytundeb yr Aelodau a oedd y dyfarniad yn 'rhannol lwyddiannus' wedi'i gyflawni. Cadarnhaodd y Swyddog fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth gwblhau'r pum nod a nodwyd o fewn yr amcan. Cwblhawyd pedwar nod allan o bump, fodd bynnag, nid yw nod Amcan Lles 2 wedi'i gyflawni'n llawn. Gwella canlyniadau ar gyfer pob dysgwr, yn enwedig y rhai sy'n agored i dangyflawniad yw'r nod. Gwnaed cynnydd sylweddol yn y maes hwn ond mae dal angen gwella’n arbennig yn y maes ddangosyddion addysg yng Nghyfnod Allweddol 4, er gwaethaf gwelliannau yn safle'r Awdurdod Lleol yn erbyn awdurdodau lleol eraill. Am y rhesymau hyn gwnaed dyfarniad o lwyddiant rhannol.

Aeth S. Mutch ymlaen i ganolbwyntio'r cyflwyniad ar lwyddiant prosiect Rhieni sy'n Ymgysylltu â Chodi Dyheadau (PETRA). Fe'i hariannwyd ar y cyd trwy Gymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, mae’r Rhwydwaith Rhieni wedi cael eu comisiynu i ymgymryd â’r prosiect hwn. Mae'r Rhwydwaith Rhieni bellach wedi sefydlu PETRA fel menter gymdeithasol a ariennir gan lawer o bartneriaid gan gynnwys ardaloedd awdurdodau lleol. Mae'r prosiect yn gweithio gyda grwpiau bach o rieni ac yn eu partneru gydag awduron a darlunwyr i gynhyrchu llyfrau plant sy'n mynd i'r afael â nifer o faterion fel cyfeillgarwch, iechyd meddwl, newid yn yr hinsawdd, dementia a thrawsrywedd. Mae pob grŵp yn derbyn hyfforddiant cyn datblygu eu llyfr er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o strwythur stori ac adrodd storïau. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu dyheadau, sgiliau a hyder i’r rhieni sydd, yn eu tro, wedi eu trosglwyddo i'r plant, gan ddod â llyfrau i'r cartref, yn ogystal â chymunedau, ysgolion a llyfrgelloedd. Mae'r prosiect hefyd wedi cysylltu â darlunwyr myfyrwyr blwyddyn olaf ym Mhrifysgol Caerdydd i gynhyrchu gwaith celf ar gyfer y llyfrau a rhoi cyfle i'r myfyrwyr ddatblygu eu portffolio o waith.

Derbyniwyd y llyfrau'n dda ac fe'u cynorthwyir gan Gyngor Llyfrau Cymru gyda chomisiwn i gyfieithu pedwar llyfr i’r Gymraeg yn gydymdeimladol. Yn ychwanegol at hyn, mae PETRA yn gweithio gyda Chyngor Cymunedol Gelligaer i gynhyrchu llyfr. Dyma'r tro cyntaf i Gyngor Cymunedol gysylltu â'r prosiect i weithio ar lyfr a hefyd y cyntaf i gael ei ysgrifennu yn Gymraeg am y tro cyntaf.

Cyflwynwyd astudiaeth achos yn tynnu sylw at lwyddiant PETRA i un teulu gyda F. Wallbank, merch un o rieni’r prosiect, yn rhoi darlleniad i'r pwyllgor o lyfr yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Diolchodd y Cadeirydd i S. Mutch, M. Jones, T. Wallbank a F. Wallbank am eu cyflwyniad a chroesawyd cwestiynau gan yr Aelodau.

Mynegodd Aelod bryderon ynglŷn â'r ymgysylltiad â darlunwyr myfyrwyr blwyddyn olaf ym Mhrifysgol Caerdydd, yn yr hyn sy'n flwyddyn hanfodol yn eu hastudiaethau a'r defnydd o ddarlunwyr proffesiynol mewn rhai achosion. Cadarnhaodd y Swyddog fod darlunwyr proffesiynol a storïwyr wedi cymryd rhan i redeg gweithdai a datblygu sgiliau cyfranogwyr y prosiect ac mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae PETRA ar hyn o bryd yn cysylltu gyda Choleg Crosskeys, gan chwilio am gyfleoedd i gynnwys darlunwyr myfyrwyr lleol i gynhyrchu llyfrau.

Gofynnodd Aelod ynghylch hyrwyddo'r prosiect hwn a'r llyfrau ac fe’i gynghorwyd fod hyn wedi cael ei gadw'n fwriadol yn dawel er mwyn caniatáu i'r prosiect dyfu'n organig a ddim yn cael ei ymestyn yn rhy gyflym.

TynnoddSwyddog sylw at y ffaith fod fod cyfarfod chwarterol o'r Cynghorau Cymunedol o fewn y Fwrdeistref ac y gallai cyflwyniad gan PETRA yn y fforwm hwn fod yn werthfawr. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 11 Tachwedd 2018.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a chytuno ar y dyfarniad o lwyddiant rhannol yn ystod y flwyddyn gyfan o ran yr asesiad Amcan Llesiant.

Terfynwyd y cyfarfod am 18:52

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau a gytunwyd a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25ain Medi 2018 fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

___________________________

CADEIRYDD